Eisteddfod Talaith a Chadair Powys

Dyffryn Banw 2019

Rhestr Testunau

Gorffennaf 12fed a 13eg, 2019

CROESO I'R EISTEDDFOD

'Ardderchog Ddyffryn Banwy
Mor swynol ydwyt ti,
Nid oes o Fôn i Fynwy
Un man mor hoff i mi,
Rwyn caru y mynyddau
O'i gylch yn ôl a blaen,
A'r eang wastadeddau
O Lanfair i Dolmaen.'

Felly y canodd Hugh Ellis i Ddyffryn Banw. A'r ardal rhwng Llanfair a Dolmaen sydd yn cynnig cartref i Eisteddfod Powys 2019.

Fe fydd yr Eisteddfod yn ymweld â'r ardal am y seithfed tro yn 2019, a hynny union saithdeg o flynyddoedd ar ôl iddi ddod yma gyntaf.

Yn ôl yn nyddiau Hugh Ellis, roedd yna dorreth o feirdd gwlad yn britho'r ardal. Mae yna rai o gwmpas o hyd. Ewch yn ôl ganrifoedd ac fe fu rhai o Feirdd yr Uchelwyr yn crwydro'r ardal hefyd. Un o'r rhai hynny oedd Gruffudd Llwyd o Langadfan, cefnogwr pybyr i Owain Glyndŵr. Mewn cywydd i'r gwron hwnnw mae'n cwyno'n arw oherwydd cyflwr ei genedl ddarostyngedig. Mae'n siŵr gen i y byddai ef wrth ei fodd gyda chwydd croeso Arwyn Groe i'r Eisteddfod hon ac yn falch o weld ein bod yn dal i frwydro tros ein hetifeddiaeth yn y gornel hon o Bowys.

Os rhywbeth mae traddodiad cerddorol yr ardal hyd yn oed yn fwy llachar na'r un barddol. Fe godwyd sawl côr a pharti yn y cylch, heb sôn am unawdwyr lleisiol ac offerynnol. Y diwrnod o'r blaen bum yn darllen am Delynor y Waun Oer yn mynd o ffair i ffair ac o westy i westy efo'i delyn ar ei gefn. Teithiodd ymhell (gan dawelu ambell darw gyda'i dannau ar y ffoordd). Yn ein dyddiau ni fe deithiodd Siân James a'i thelyn ymhellach hyd yn oed (ond heb orfod cario'r offeryn ar ei chefn gobeithio).

Weithiau rwy'n hoffi dychmygu fod ysbryd Evan Jones, yr hen delynor yn oedi am ennyd yn Llanerfyl i wrando ar Siân yn hyfforddi Parti Cut Lloi yn y neuadd bentre, cyn cerdded ymlaen yn ysgafndroed tros riw Caerbache i gyfeiriad Llanfair, yn hapus o wybod fod ei werthoedd ef yn cael eu gwarchod gennym o hyd .

Efo traddodiad diwylliannol mor gryf yn gefn i ni, does ryfedd ein bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu eisteddfodwyr o bob rhan o Gymru i Ddyffryn Banw y flwyddyn nesa'.

Dafydd Morgan Lewis
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

CYMRODORIAETH

TALAITH A CHADAIR POWYS

CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS

Sefydlwyd y Gymrodoriaeth yn 1913 dan lywyddiaeth Penfro 'yn cael ei gynorthwyo gan Cadfan a Iliaws beirdd, llenorion a cherddorion Powys' gyda'r diben o sicrhau cydweithrediad cyffredinol yn y Dalaith i gynnal Eisteddfod Flynyddol ac i ddyrchafu safon yr eisteddfodau yn ei thestunau a'i chynhyrchion.

EISTEDDFODAU O FEWN Y DALAITH

Mae'r Gymrodoriaeth erbyn hyn yn rhoi cymorth ariannol i eisteddfodau annibynnol a gynhelir yn rheolaidd o fewn y Dalaith. Dylai'r ceisiadau; ynghyd â'r fantolen ariannol wedi'i archwilio, a Rhaglen yr Eisteddfod, fod yn ław'r Trysorydd yn ddi-ffael erbyn y dydd Olaf o Ragfyr.

EISTEDDFODAU'R DYFODOL

Cynhelir Eisteddfod 2018 ym Mro Hafren. Bydd Eisteddfod 2019 yn Nyffryn Banw, a bydd Eisteddfod 2020 yn Rhosllannerchrugog, a bydd yn Eisteddfod Dathlu 200 Mlwyddiant yr Eisteddfod Powys gyntaf a gynhaliwyd yn Wrecsam yn 1820. Os oes ardal ag awydd gwahodd Eisteddfod 2021 i'r ardal, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda. Mae'r Gymrodoriaeth wedi cofrestru fel elusen, fel y gall pwyllgorau lleol fanteisio trwy wneud ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth John a Rhys James Pantyfedwen. Cefnogir Eisteddfodau Powys yn flynyddol gan yr Ymddiriedolaeth hon.

AELODAU

Mae aelodaeth y Gymrodoriaeth yn agored i bob Eisteddfodwr a charedigion llën, awen a cherdd ac nid yw'r tanysgrifiad ond £20 am oes. Estynnir gwahoddiad i bawb a gâr ein diwylliant i ymaelodi. Anfonwch heddiw at y Cofiadur.

PWYSIG

Nid yw'r Gymrodoriaeth yn derbyn rhagor o Gwpanau na Thlysau fel gwobrau. Cwpanau sydd i'w dal am flwyddyn i'w dychwelyd i Mrs Lora Richards, Gwenyndy, Y Foel, Y Trallwng, Powys. SY21 ONR (Rhif Ffôn: 01938 820142) o leiaf fis cyn yr Eisteddfod.

Gwrtheyrn (Cofiadur)

CYWYDD CROESO

Cyfrifiad: Pwy all wadu
Y deud drwy'r canrannau du?
Ac awen iaith yn gwanhau
Yn gwaedu drwy'r degawdau,
A'r hen gân yng Nghwm Banwy'n
Pylu o hyd drwy'r tri plwy'.

Trai heniaith Pentreonnen,
Bore o rew yn Nantbrén,
Waenllwyfen, Llwyngollen gudd
Aed i ormes y stormydd;
Hen dyddynnod oedd unwaith
Yn y Cwm yn llowcio'i hiaith.

Ond ynghanol ein golud,
Pa iws y *no hope* o hyd?
Gweld baw, nid golud buarth,
Nid ei haul, ond niwl yn darth!
Heb weld, fod drwy'n cwm yn bod
Hen arfau'n herio'n darfod.

Ym Maes Gwyn mae miwsig iau
Yn tylino'r telynau;
Alaw'r Gors dawela'r gog;
Alaw iau'n Maescelynog;
Mae to iau a'u nodau'n hen
Yn gwahodd i gae awen.

Arwyn Groe
Mai 2018

CYMRODORIAETH EISTEDDFOD TALAITH
SWYDDOGION 2018

Llywydd: Trefor Owen, Y Trallwng

Cadeirydd: Mr. T. I. Morris, Llanrhaeadr ym Mochnant

Is-gadeirydd: Mr. John Price, Machynlleth

Trysorydd: Mr. D. Glyn Williams, Llandudno

SWYDDOGION YR ORSEDD

Y Derwydd Gweinyddol	Huw Ceiriog
Dirpwy Dderwydd Gweinyddol;	Tom Erfyl
Cyn-Dderwydd Gweinyddol:	Emyr ap Erddan
	Talog
	Trefor Cynllaith
	Hedd Bleddyn
	Marlis Ogwen
Cofiadur:	Gwrtheyrn
Arwyddfardd:	Meirion o Fôn
Dirprwy Arwyddfardd:	Hywel Hefin
Ceidwad y Cledd	Glandon
Dirprwy Geidwad y Cledd	Gwernfab
Telynores;	Telynores Powys
Dirprwy Delynores:	Bethan Clywedog
Cornydd:	Garwyn
Dirprwy Gornydd:	Philip ap Islwyn
Trefnydd Cerdd:	Tegwyn
Meistresi'r Gwisgoedd	Marian o Fawddwy
	Eirian Mai
	Beryl o Gefnllys
	Marged Feddyg
Banerwr:	Dafydd Henlle
Dirprwy Fanerwr:	Rhiwarth
Arolygwr Llwyfan a Seremonïau:	Edryd o Fethel
Is-Arolygwr Llwyfan a Seremonïau:	Guto Llwyd
Swydog Cwpanau a Thlysau:	Lowri Cadfan

Ceidwad y Pyrth

Ceidwad y Maen Llog,

Derwydd, Beirdd

Ofyddion

Gwahoddir yn galonnog i bawb ym Mhowys a gâr Lên, Awen a Chân i ymaelodi â'r Gymrodoriaeth.

Derbynnir enwau'r cyfryw gan y Cofiadur: Gwrtheyrn (Cofiadur) - Gwytheyrn, Pennant, Llanbrynmair, Powys, SY19 7BH. Tâl am oes - £20

Amodau Cyffredinol

1. Dylid anfon pob gohebiaeth i'r Ysgrifennydd Cyffredinol (oni nodir yn wahanol). Os am dderbyn gwybodaeth, dylid amgáu amlen â stamp arni.
2. Bydd gan y Pwyllgor hawl i benodi beirniaid yn lle rhai sy'n absennol trwy amgylchiadau anorfod. Bydd gan y Pwyllgor hawl hefyd i ddewis beirniaid ychwanegol.
3. Ni thraddodir ond braslun o'r feirniadaeth o'r llwyfan ond gall cystadleuydd gael copi o sylwadau'r beirniad ar ei waith.
4. Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod.

5. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus yn yr Eisteddfod, ond gellir anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Bydd dyfarniad y Pwyllgor yn derfynol ar bob mater.
6. Rhaid i'r ymgeiswyr ar bob cystadleuaeth llwyfan, lle y nodir oedran, fod yn y flwyddyn ysgol briodol ar y 1af Medi 2018.
7. Rhaid i'r cystadleuwyr fod yn bresennol ac ymddangos pan elwir eu henwau yn y Rhagbrofion a'r Cystadlaethau Terfynol neu atelir hwy rhag cystadlu.
8. Canlyniadau'r rhagbrofion i gael eu cyhoeddi ar safle'r Eisteddfod yn unig.

9. Rhoddir manylion am amser a lleoliad y rhagbrofion yn Rhaglen y Dydd.

10. Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am golled neu ddamwain o unrhyw fath ar safle'r Eisteddfod.
11. Ni ystyrir unrhyw gynnyrch a wobrwywyd o'r blaen.

12. Mae'r holl gystadlaethau i'w cynnal dan yr Amodau Cyffredinol hyn ynghyd ag Amodau Arbennig yr Adran y mae'r gystadleuaeth yn perthyn iddi.
13. Dylid anfon enwau'r holl ymgeiswyr yn y cystadlaethau llwyfan at Ysgrifennydd y Pwyllgorau (Gweler Amodau Arbennig y Pwyllgorau)

CWPANAU A GWOBRA

Rhoddir enwau Rhoddwyr Gwobrau Ariannol a Chwpanau yn Rhaglen y Dydd.

Cydnabyddir pob cyfraniad ariannol dros £25 tuag at yr Eisteddfod wrth enwau'r Rhoddwyr yn Rhaglen y Dydd.

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dafydd Morgan Lewis, Llangadfan

Ysgrifenyddion Cyffredinol:

Catrin Hughes
Llais Afon
Llangadfan
Y Trallwm
Powys SY21 0PW
Ffôn: 01938 820594
Ebost: powysbanw19@gmail.com

Gwenan Davies
7, Erw Deg
Llanerfyl
Y Trallwm
Powys SY21 0EA
Ffôn: 01938 820447
Ebost: powysbanw19@gmail.com

Trysorydd

Emlyn Thomas, Tynllwyn, Foel
Y Trallwm, Powys, SY21 0NR
Ffôn: 01938 820289

PWYLLGOR YR ORSEDD

Cydlynydd	Gwyndaf Richards	01938 820266	gwyndaf50@btinternet.com

PWYLLGOR LLÊN A LLEFARU

Cadeirydd:	Delyth Roberts		
Ysgrifennydd:	Elen Jones	Hafod y Beudy, Llanerfyl, Y Trallwm, Powys, SY21 0JH	john.jones11@btconnect.com 01938 820218

PWYLLGOR CERDD

Cadeirydd:	David Evans		
Is-Gadeirydd:	Osian Davies		
Ysgrifennydd:	Alun Jones	Pantrhedynog, Y Foel, Y Trallwm, Powys, SY21 0PD	cefnau@yahoo.co.uk 01938 820307

PWYLLGOR CERDD DANT A CHANU GWERIN

Cadeirydd:	Lena Jones		
Is-Gadeirydd:	Olwen Chapman		
Ysgrifennydd:	Elinor Edwards	Glanaber, Llangadfan, Y Trallwm, Powys, SY21 0PN	glanaber@aol.com 01938 820323

PWYLLGOR DAWNS

Cydlynydd:	Nerys Smith	Maesdderwen, Llangadfan, Y Trallwm, Powys, SY21 0PU	maesdderwen@aol.com 01938 820

PWYLLGOR CELF A CHREFFT

Cadeirydd:	Gill Kighley		
Is-Gadeirydd:	Carol Morgan		
Ysgrifennydd:	Carys Mair Jones	Fronlwyd, Llangadfan Y Trallwm, Powys, SY21 0QL	carysmairevs@gmail.com 07710 624370

PWYLLGOR DYSGWYR

Cadeirydd:	Miriam Jones		
Is-Gadeirydd:	Llinos Evans		
Ysgrifennydd:	Jane Evans	Ty'n Coed Llanerfyl, Y Trallwm, Powys, SY21 0ER	dafyddlevans@hotmail.com 01938 820692

PWYLLGOR LLETY A CHROESO

Cydlynydd:	Olwen Roberts	01938 820353	garethrhandir@aol.com

PWYLLGOR MAES A THREFN

Cadeirydd:	Geraint Roberts		
Ysgrifennydd:	Dylan Jones	07817 332945	dylanj4@hotmail.co.uk

PWYLLGOR ADLONIANT

Cydlynydd	Delyth Roberts	07843 691125	delroberts@live.co.uk

BEIRNIAID

BARDDONIAETH:	Yr Athro Peredur Lynch, Bangor
RHYDDIAITH:	Menna Baines, Bangor
LLEFARU:	Mary Jones, Gwyddelwern
	Aled Lewis Evans, Wrecsam
CERDD:	Ann Atkinson, Corwen
	Mari Lloyd Pritchard, Sir Fôn
	Steffan Prys Roberts, Llanuwchllyn
	Sioned Webb
CYFANSODDI:	Ann Davies
CERDD DANT a	Eleri Roberts
CHANU GWERIN:	Steffan Rhys Hughes
DAWNSIO GWERIN:	Nigel Hardy, Tre-Ddôl
DAWNSIO CYFOES:	Eleri Jones, Machynlleth
DYSGWYR:	
Rhyddiaith:	Cyril Jones, Pontypridd
Llefaru:	Llion Williams,
CELF A CHREFFT:	
Celf:	Christine Mills, Foel
Celfyddyd Cartref:	Joan Phillips ac Eleri Wyn Williams, Carno
Crefft:	John Price, Machynlleth

Llywydd Anrhydeddus: Mrs Dwynwen Jones, Llangadfan

Llywyddion:

Lynwen Roberts, Caerdydd

Menna Baines, Bangor

Arweinyddion:

Elinor Edwards — Elain Micah-Evans

Glandon Lewis — David Oliver

Cyfeilyddion:

Huw Davies — Glian Llwyd

Emma Morgan — Caryl Roberts

Telynores:

Alecs Peate

LLENYDDIAETH

BARDDONIAETH

1. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd ar y testun **'Ofn'** heb fod dros 150 o linellau.

   Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150

2. Cywydd: 'Pont'

   Gwobr: £40

3.. Englyn: 'Glaw'

   Gwobr: £40 (£20 o wobr Goffa Gwilym Rhys)

4. Englyn ysgafn: 'Glampio'

   Gwobr: £30

5. Telyneg: 'Perthyn'

   Gwobr: £30

6. Soned: 'Bro'

   Gwobr: £30 (£20 o wobr Goffa Llawenog (Henry Hughes))

7. Limrig: 'Fe gefais i gam yn y Steddfod...'

   Gwobr: £30

8. 3 Thriban: 'Beddargraff'

   Gwobr: £30 (£10 o wobr Goffa Ifor Llefenni)

9. Carol Nadolig

   Gwobr: £30

10. Cerdd Ysgafn: 'Mewn Caffi'

    Gwobr: £30

RHYDDIAITH

11, Cyfrol o waith creadigol ar y thema ‘Gororau’

Gwobr: Coron yr Eisteddfod a £150

12. Stori Fer: ‘Disgwyl’
Gwobr: £30 (£25 o wobr Goffa Dr D. Tecwyn Lloyd gan Gôr Glyndwr)

13. Tair chwedl wedi eu cyfyngu i ardal benodol
Gwobr: £30

14. Portread o unrhyw berson
Gwobr: £30 (£25 o wobr Goffa Dr D. Tecwyn Lloyd gan Gôr Glyndwr)

15. Casgliad ar ffurf llyfr lloffion fydd yn gofnod o adfeilion unrhyw fro.
Gwobr: £30 (£15 o wobr Goffa William Jones, Dolhywel, Llangadfan)

16. Ysgrif: ‘Hunanoldeb’
Gwobr: £30 (£15 o wobr Goffa Ifor Llefenni)

ADRAN IEUENCTID

17. Dan 25: Casgliad o waith gwreiddiol mewn mwy nac un cyfrwng.
Gwobr: Tlws a £75

Barddoniaeth

18. Blwyddyn 10-11: ‘Gwrhdaro’
Gwobr: £30 i’w rannu

19. Blwyddyn 7-9: ‘Ffrindiau’
Gwobr: £30 i’w rannu

20. Blwyddyn 5-6: ‘Fy i-pad’
Gwobr: £20 i’w rannu

21. Blwyddyn 4 ac iau: ‘Amser chwarae’
Gwobr: £20 i’w rannu

Rhyddiaith

22. Blwyddyn 10-11: Adolygiad o lyfr, ffilm neu ddrama
    Gwobr: £30 i'w rannu

23. Blwyddyn 7-9: 'Diwrnod yn fy mywyd'
    Gwobr: £30 i'w rannu

24. Blwyddyn 5-6: 'Diwrnod Chwaraeon'
    Gwobr: £20 i'w rannu

25. Blwyddyn 4 ac iau: 'Mynd i'r Gofod'
    Gwobr: £20 i'w rannu

YMRYSON Y BEIRDD

Gwahoddir timau o bedwar bardd i gystadlu yn yr ymryson—dau yn y Mesurau Caeth a dau yn y Mesurau Rhydd. Bydd cwpan i'r tîm buddugol i'w ddal am flwyddyn. Cynhelir yr ymryson Nos Wener, Gorffennaf 5ed, 2019. Dylid anfon enwau'r Timau i:
Elen Jones, Hafod, Llanerfyl, Y Trallwng Powys,SY21 0JH erbyn Mehefin 1af 2019.
Ebost: john.jones11btconnect.com

AMODAU ARBENNIG ADRAN LLENYDDIAETH

1. Rhaid i bob ymgeisydd, wrth anfon y cyfansoddiad, gynnwys enw priodol, cyfeiriad a rhif y gystadleuaeth dan sêl mewn amlen â ffugenw a rhif y gystadleuaeth ar y blaen.
2. Ni dderbynnir unrhyw waith a wobrwywyd o'r blaen..
3. Atelir y wobr ariannol yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron a'r Medalau oni fydd y buddugol neu ei g/chynnrychiolydd yn bresennol.
4. Yr holl gyfansoddiadau i'w teipio neu eu hysgrifennu ar un ochr y ddalen yn unig
5. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn yr adran Llên yn eiddo Cymrodoriaeth Cadair Powys yn unig am dri mis o ddyddiad yr Eisteddfod.
6. Rhaid i'r cyfansoddiadau ynghyd â'r ffurflen gystadlu gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru erbyn y 1af o Fai 2019
7. Dychwelir y cyfansoddiadau anfuddugol i'r ymgeiswyr sy'n anfon amdanynt i'r Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn y 1af o Gorffennaf 2019 os ceir ffugenw, rhif ac enw'r gystadleuaeth gyda thâl cludiant post.
8. Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn yr iaith Gymraeg.
9. Cynhelir Pabell Lên yn ystod yr Eisteddfod i drafod gwaith y buddugwyr yn y prif gystadlaethau llenyddol.
10. Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod.

LLEFARU

26. Blwyddyn 2 ac iau: Dwi ddim yn dda am sgwennu' Gwyn Morgan
Chwarae Plant. Gwasg Carreg Gwalch.

Gwobrau: £6; £4. £3

27. Blwyddyn 3 a 4: 'Paid'. Haf Roberts, Yr Un Oed a Bawd Fy Nhroed
Gwasg Carreg Gwalch

Gwobrau: £8; £6. £5

28. Blwyddyn 5 a 6: 'Be wnest ti yn yr ysgol heddiw? Allan o 'Tawelwch Taranodd Miss Tomos, Gwasg Carreg Gwalch

Gwobrau: £10; £8; £6 (£5 o wobr Goffa Pat O'Brian)

29. Blwyddyn 7-9: Hunan-ddewisiad

Gwobrau: £12; £10; £8

30. Dan 19 oed; Hunan-ddewisiad

Gwobrau: £20; £15; £10

31. Dan 25 oed: Hunan-ddewisiad

Gwobrau: £30; £20; £15

32. Monolog i barhau am 5 munud. Copi o'r fonolog i'w chyflwyno i'r beirniad ymlaen llaw.

Gwobrau: £30; £20; £15

33. Prif gystadleuaeth Lefaru: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 6 munud

Gwobrau: £60; £40; £30

34. Grŵp Llefaru Ysgolion Cynradd. Hunan-ddewisiad

Gwobrau: £30; £20; £10

35. Grŵp Llefaru Ysgolion Uwchradd. Hunan-ddewisiad

Gwobrau: £40; £30; £20

36. Grŵp Llefaru Agored: Hunan-ddewisiad

Gwobrau: £60; £40; £30 (£30 o wobr Goffa Llawenog (Henry Hughes))

ADRAN Y DYSGWYR

OEDOLION: CYSTADLAETHAU LLENYDDOL

37. Tlws y Dysgwyr: Agored. 2 ddarn o waith gwreiddiol mewn ffurfiau gwahanol e.e. llythyr, stori, ysgrif, cerdd, ymson, deialog, dyddiadur, adolygiad (o lyfr/CD/rhaglen teledu), blog – ar y thema ***Breuddwyd*** neu ***Gobaith / Gobeithion.***
a hefyd
Sgwrs rhwng y dysgwr/wraig â siaradwr Cymraeg rhugl wedi'i recordio. Dim mwy na 5 munud. Y dysgwr/wraig i arwain y sgwrs.
Gwobr: Tlws a £60

38. Lefel Mynediad: Darn o waith hyd at 50 o eiriau, Thema: Fi Fy Hun
Gwobrau : £20, £15, £10

39. Lefel Sylfaen: Darn o waith hyd at 100 o eiriau, Thema: Diddordebau
Gwobrau: £20, £15, £10

40. Lefel Canolradd: Darn o waith hyd at 150 o eiriau, Thema: Sgwrs Dros Baned (ar ffurf deialog)
Gwobrau: £20, £15, £10

41. Gwaith Grŵp/Unigolyn (Agored): Thema: Pwnc Llosg
Gwobrau: £20, £15, £10

YSGOLION: CYSTADLAETHAU LLENYDDIAETH

42. Blwyddyn 6 ac iau Un o'r canlynol: i) Adolygiad o lyfr Cymraeg neu ii) Llythyr at gylchgrawn yr Urdd 'Bore Da', yn sôn amdanyn nhw eu hunain neu iii) Portread o ffrind/perthynas/arwr
Gwobrau: £10, £8, £6

43. Blwyddyn 7-9: Darn o waith ar unrhyw ffurf ar y thema: Cymru neu Ardal
Gwobrau: £12, £10, £8

44. *Blwyddyn 10 -11: Darn o waith ar unrhyw ffurf ar y thema: Hamdden neu Byd Gwaith*
Gwobrau: £15, £12, £10

45. BLWYDDYN 12 – 13: Gwaith Prosiect i gynnwys 3 darn o waith ar ffurfiau gwahanol. Thema: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £12

OEDOLION: CYSTADLAETHAU LLWYFAN

46. Darn Darllen : Lefelau hyd at Sylfaen 2: Testun: Detholiad o 'Syrpreis!' gan Lois Arnold (copi ar gael gan Ysgrifennydd yr Eisteddfod)
Gwobrau: £25, £20, £15

47. Llefaru Unigol : Agored: Testun: Cwm (Banwy) - Gwyn Erfyl (copi ar gael gan Ysgrifennydd yr Eisteddfod)
Gwobrau: £30, £25, £20

48. Sgets : Agored Sgets i 3 neu fwy ar y thema: Tro Trwstan neu Siwrnai. Dim hwy na 10 munud.
Gwobrau: £40, £30, £20

49. Grŵp Canu : Agored: Unrhyw gân o Hunan ddewisiad. (Gellir cynnwys hyd at 2 o Gymry Cymraeg yn y grŵp)
Gwobrau: £40, £30, £20

YSGOLION: CYSTADLEUAETH LLWYFAN

50. Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac iau: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £6, £4, £3

51. Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

52. Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £10, £8, £6

53. Ymgom Blwyddyn 6 ac iau: Hunan Ddewisiad (Dim hwy na 5 munud)
Gwobrau: £25, £15, £10

54. Grŵp Llefaru Blwyddyn 6 ac lau: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £30, £20, £10

55 Llefaru Unigol Blwyddyn 7 – 9: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £12, £10, £8

56. Llefaru Unigol Blwyddyn 10 – 13: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

57. Ymgom Blwyddyn 7 -13: Hunan Ddewisiad. Hyd at 3 mewn nifer, dim hwy na 5 munud
Gwobrau: £30, £20, £10

58. Cyflwyniad Llafar / Grŵp Llefaru Blwyddyn 7 i 13: Hunan Ddewisiad 6 – 12 mewn nifer.
Gwobrau: £40, £30, £20

CERDDORIAETH

LLEISIOL

59. Unawd Blwyddyn 2 ac iau (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £6, £4, £3

60. Unawd Blwyddyn 3-4 (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £8, £6, £5

61. Unawd Blwyddyn 5-6 (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £10, £8, £6

62. Unawd Blwyddyn 7-9 (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £12, £10, £8

63. Unawd dan 19 oed (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £20, £15, £10

64. Unawd 19-25 oed (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £30, £20, £15 (£50 o wobr goffa Gwilym Clwyd)

65. Unawd Llwyfan a Sgrin dan 19 oed (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £20, £15, £10

66. Unawd Llwyfan a Sgrin dros 19 oed (hunan ddewisiad):

Gwobrau: £30, £20, £15

67. Canu Emyn dan 30 oed (hunan ddewisiad):

Gwobrau: £30, £20, £15

68. Canu Emyn dros 60 oed (hunan ddewisiad):

Gwobrau: Cwpan Coffa Rhys Davies (i'w ddal am flwyddyn) £30, £20, £15

69. Unawd gan gyfansoddwr Cymraeg (hunan ddewisiad):

Gwobrau: Cwpan Coffa Rhys Davies (i'w ddal am flwyddyn) a £60, £40, £30 (£25 o wobr goffa Ifor Llefenni)

70. Her Unawd (hunan ddewisiad):

Gwobrau: Cwpan Cyngor Tref Croesoswallt (i'w ddal am flwyddyn) £150, £80, £50, (£20 o wobr goffa Rhisiart Cadfan)

71. Deuawd o dan 16 oed (hunan ddewisiad):

Gwobrau: £20, £16, £12

72. Deuawd Agored (hunan ddewisiad):

Gwobrau: £40, £30, £20

73. Ensemble Lleisiol Agored (3-8 llais). Digyfeiliant. (hunan ddewisiad):

Gwobrau: £50, £40, £30

CORAWL

74. Parti Unsain i Oedran Ysgolion Cynradd (dim mwy na 12 mewn nifer) (hunan ddewisiad):

Gwobrau: £30, £20, £10

75. Côr Oedran Ysgolion Cynradd (hunan ddewisiad):

Gwobrau: Tarian WEA Gogledd Cymru a £40, £25, £20

76. Côr Ysgolion Uwchradd / Ieuenctid / Côr Cymunedol (hunan ddewisiad):

Gwobrau: Cwpan Côr Merched Hafren (i'w ddal am flwyddyn) a £175, £100, £75

77. Côr Agored o unrhyw gyfrwng: (hunan ddewisiad – dau ddarn cyferbyniol)

Gwobrau: Cwpan Amaethwyr Corwen (i'w ddal am flwyddyn) a £500, £300, £200

OFFERYNNOL

78. Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau (hunan ddewisiad heb fod dros 3 munud): Gradd 2 neu uwch

Gwobrau: £10, £8, £6 (£10 o wobr coffa Idwal Davies)

79. Unawd Offerynnol (ac eithrio piano) Blwyddyn 6 ac iau (hunan ddewisiad heb fod dros 3 munud): Gradd 2 neu uwch

Gwobrau: £10, £8, £6

80. Unawd Offerynnol Blwyddyn 7-9 (unrhyw offeryn): safon Gradd 3 neu uwch (hunan ddewisiad heb fod dros 5 munud)

Gwobrau: £12, £10, £8

81. Unawd Offerynnol dan 19 oed (unrhyw offeryn) (hunan ddewisiad heb fod dros 7 munud):

Gwobrau: £20, £15, £10

82. Unawd Offerynnol Agored (hunan ddewisiad heb fod dros 7 munud):

Gwobrau: Cwpan Cymdeithas Amaethwyr y Wynnstay a £40, £30, £20

83. Grŵp Offerynnol Oedran Ysgolion Cynradd (3 aelod neu fwy) (hunan ddewisiad heb fod dros 4 munud):

Gwobrau: Tarian Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn a £15, £10, £8

84. Deuawd Offerynnol Agored (hunan ddewisiad heb fod dros 8 munud):

Gwobrau: £40, £30, £20

85. Band Roc/Pop/Cyfoes:

    Gwobrau: £100, £75, £50

86. Grŵp Offerynnol Agored (3 aelod neu fwy) (hunan ddewisiad heb fod dros 8 munud):

    Gwobrau: Tarian Goffa Eric Jones a £100, £75, £50

Amodau Arbennig yr Adran Cerdd

1. Anogir pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ac eithrio'r Her Unawd.
2. Rhaid defnyddio cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod ym mhob cystadleuaeth ac eithrio yn y cystadlaethau offerynnol, corau, partïon a sioe gerdd.
3. Rhaid i'r cystadleuwyr anfon eu henwau erbyn 1af Mehefin 2019 ynghyd â 2 gopi o'r darnau ar gyfer y beirniad a'r cyfeilydd at Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd: Mr Alun Jones, Pantrhedynog, Foel, Y Trallwng, Powys SY21 0PD
4. Penderfynir trefn ymddangos y corau trwy ddugel.
5. Bydd £75 i bob Côr anfuddugol sydd wedi teithio dros 50 milltir i'r Eisteddfod.
6. Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod Sylwer: Mae'n anghyfreithlon llungopïo copïau heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.
7. Rhaid i'r holl gyfansoddiadau ar gyfer cystadleuaeth rhif 87 cyfansoddi emyn dôn gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd erbyn y 1af o Fai 2019.

Special Regulations—Music Section

1. Competitors are all urged to use Welsh where possible with the exception of the 'Her Unawd'
2. The official Eisteddfod accompanist must be used in all competitions except in the instrumental, choral, parties and musical show competitions.
3. Competitors must send their names and 2 copies of own-choice test pieces for adjudicators and accompanists by 1st June 2019 to the Music Committee Secretary: Mr Alun Jones, Pantrhedynog, Foel, Y Trallwng, Powys SY21 0PD
4. The order in which choirs perform will be decided by lot.
5. £75 will be given to unsuccessful choirs who have travelled over 50 miles to the Eisteddfod.
6. See also General Regulations. Note: It must be noted that the photocopying of copyright material without permission is illegal.
7. Also compositions for competition 87 must reach the Secretary of the Music Committee by the 1st of May 2019.

CYFANSODDI

87. Cyfansoddi: Tôn SATB ar gyfer Emyn o waith Emyr Davies (isod)
Gwobr £100 (Rhoddedig gan Brian Jones, Afallon, Llwydiarth)

Tymhorau'

Pan welaf i y coed a'r caeau'n wyrdd
A'r blodau yn addurno cloddiau'r ffyrdd;
Pan welaf ŵyn yn prancio'r dolydd îr
A'r eirlys, wedi ei chaethiwed hir;
Pryd hynny, gwn mai braint i mi cael byw
Yn dyst i wyrthiau dirgel, tawel Duw.

Pan welaf haul yr haf yn crasu'r ddôl
A'r wennol chwim o'r Affrig bell yn ôl;
Pan glywaf sŵn peiriannau yn y Cwm,
A'r meysydd, wedi'r cnwd yn felyn, llwm;
Pryd hynny, gwn mai braint i mi cael byw
Yn dyst i wythriau yr Anfeidrol Dduw.

Pan welaf enfys trwy'r cawodydd glaw
A chochni cynnar yn y machlud draw;
Pan deimlaf garped dail o dan fy nhraed
Daw'n dymor diolch am yr hyn a gaed;
Pryd hynny hefyd, diolchaf am gael byw
Ynghanol mawr haelioni Gwinllan Duw.

Pan welaf gwrlid wen ar ffridd a rhos,
Y dyddiau'n fyr a hirion oriau'r nos;
Pan welaf rew yn cuddio wyneb llyn,
Y dŵr mewn cell yn ei gaethiwed gwyn;
Pryd hynny, tystio wyf bod cynnwrf byw
O'r golwg, yn ail greu gogoniant Duw.

CERDD DANT

88. Unawd Blwyddyn 2 ac iau (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £6; £4; £3

89. Unawd Blwyddyn 3 a 4 (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £8; £6; £5

90. Unawd Blwyddyn 5 a 6 (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £10; £8; £6

91. Parti Oedran Cynradd (hunan ddewisiad):
Gwobrau: Cwpan Coffa Ted Richards (i'w ddal am flwyddyn) a £30; £20; £10

92. Unawd Blwyddyn 7-9 (hunan ddewisiad);
Gwobrau: £12; £10; £8

93. Unawd o dan 19 oed (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £20; £15; £10

94. Deuawd o dan 19 oed (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £20, £16, £12

95. Unawd dros 19 (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £60; £40; £30

96. Deuawd/Triawd neu Bedwarawd Agored (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £50; £30; £20

97. Côr neu Barti Cerdd Dant Agored (hunan ddewisiad):
Gwobrau: £100; £50; £30

CANU GWERIN

98. Unawd Blwyddyn 6 ac iau (hunan ddewisiad):

    Gwobrau: £10; £8; £6

99. Unawd dan 19 oed (hunan ddewisiad):

    Gwobrau: £20; £15; £10

100. Unawd Agored (hunan ddewisiad):

    Gwobrau: £60; £40; £30

101. Côr/Parti Alawon Gwerin Agored (2 ddarn cyferbyniol):

    Gwobrau: £100; £50; £30

102. Parti Plygain: Carol Plygain

    Gwobrau: £60; £40; £30

Amodau Arbennig yr Adran Cerdd Dant

1. Rhaid i bob ymgeisydd gydymffurfio â rheolau y Gymdeithas Gerdd Dant.
2. Rhaid anfon copïau o'r geiriau, enw'r gainc, y llyfr y ceir gainc ynddo, a'r cyweirnod erbyn 1af Mehefin 2019 i ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant: Elinor Edwards, Glanaber, Llangadfan, Y Trallwng, Powys, SY21 0PN
3 Rhaid i bob ymgeisydd dderbyn gwasanaeth y Telynor Swyddogol.
4. Ni chaniateir arweinydd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa i unrhyw eitem.
5. Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol

Amodau Arbennig yr Adran Canu Gwerin

1. Rhaid i bob ymgeisydd anfon copi o'r alaw werin erbyn 1af Mehefin 2019 i Ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant: Elinor Edwards, Glanaber, Llangadfan, Y Trallwng, Powys, SY21 0PN.
2. Rhaid i bob cân gael ei chanu'n ddigyfeiliant.

DAWNS

DAWNSIO GWERIN

103. Ysgolion Cynradd: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £30; £20; £10

104. Ysgolion Uwchradd: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £40; £30; £20

105. Agored: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £50; £40; £30

DAWNSIO STEP

Dylid defnyddio arddull, camau, alawon, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Cymreig.

106. Grŵp Ysgolion Cynradd. Amser: dim hwy na 3 munud
Gwobrau: £20; £15; £10

107. Agored – Unigol. Amser – dim hwy na 3 munud.
Gwobrau: £25; £20; £15

108. Agored – Grŵp. Amser – dim hwy na 3 munud
Gwobrau: £50; £40; £30

DAWNSIO HIP HOP/STRYD/DISGO

109. Unigol dan 12 oed. Cerddoriaeth: Offerynnol neu yn iaith Gymraeg. Amser: hyd at 2 funud o'r symudiad cyntaf.
Gwobrau: £10; £8; £6

110. Unigol Agored: Cerddoriaeth: Offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 2 funud o'r symudiad cyntaf.
Gwobrau: £25; £20; £15

111. Grŵp dan 12 oed (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: Offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 3 munud o'r symudiad cyntaf.

Gwobrau: £30; £20; £10

112. Grŵp Agored (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: Offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 3 munud o'r symudiad cyntaf.

Gwobrau: £50; £40; £30

113. Dawns Agored i bâr neu driawd mewn unrhyw arddull. Cerddoriaeth: Offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 3 munud o'r symudiad cyntaf.

Gwobrau: £35; £25; £20

DAWNSIO AML GYFRWNG

Ar gyfer cystadlaethau y rhifau 114,115, 116, disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr o gynnwys y ddawns ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Dim mwy na 100 o eiriau. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru.

114. Grŵp dan 12 (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 4 munud o'r symudiad cyntaf.

Gwobrau: £30; £20; £10

115. Grŵp Agored (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 4 munud o'r symudiad cyntaf.

Gwobrau: £50; £40; £30

DAWNS GREADIGOL

116. Grŵp Ysgolion Cynradd (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: Offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Amser: hyd at 4 munud o'r symudiad cyntaf.

Gwobrau: £30; £20; £10

CYSTADLEUAETH CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU 2018-2019

117. Oedran: Agored: Llefaru neu gyflwyno darn digri

Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisioes wedi ei gyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol (gweler rhestr awduron a darnau digri' ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: www.steddfota.org)

Gwobr: £30; £20; £15

Amodau:

* Disgwylir i'r iaith fod yn weddus

* Dylai'r pwyslais fod ar gyfleu hiwmor y darn a'i drosglwyddo i'r gynulleidfa

* Caniateir defnyddio props os ydyw'n ychwanegu at y perfformiad

* Perfformiad – dim mwy na 4 munud

* Rhaid sicrhau copïau i'r beirniad

Byddai ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn 2 eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2018 a diwedd Gorffennaf 2019 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2019, am wobrau o £100, £60 a £40

NODER: Derbynnir ennill mewn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd, yn ogystal ag Eisteddfod Sir CFfI fel "eisteddfod leol".

YSGOLORIAETH:

Cynigir Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru (gwerth £500) yn flynyddol i alluogi'r enillwyr i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol.

Bydd yn cael ei chyflwyno yn ôl dewis y beirniad – i'w rhannu os dyfernir mwy nag un yn deilwng.

Dim ond unwaith mae'n bosib ennill yr ysgoloriaeth.

ADRAN CELF A CHREFFT

ARTS & CRAFTS SECTION

Agorir yr Arddangosfa Celf a Chrefft gan

Eleri Mills

Mae Eleri yn artist tecstiliau lleol sydd yn cael ei hysbrydoli gan y wlad o'i chwmpas. Dangosir ei Gwaith yn Ewrop, UDA a Siapan.

The Arts & Craft Exhibition will be opened by

Eleri Mills

Eleri is a local textile artist who is inspired by the local landscape. Her work is exhibited throughout Europe, USA and Japan.

Cyflwynir nifer o gwpanau yn yr adran hon yn ogystal â **Thlws yr Arddangosfa** i'r eitem orau yn yr Adran Celf a Chrefft.

A number of cups will be awarded in this section in addition to ***The Exhibition Trophy*** *for the best exhibit in the Arts and Crafts Section.*

Thema y cystadlaethau canlynol yw:

'EIN CEFN GWLAD'

Ei chymeriadau, ei thirlun, a'i llên/diwylliant gwerin

The theme of the following competitions is

'OUR COUNTRYSIDE'

The characters, the landscape and culture

CELF / *ART*

Beirniad / *Adjudicator*

Christine Mills

Gwaith 2D neu 3D mewn unrhyw gyfrwng e.e arlunio, argraffu, cyfrifiadur, brodwaith, modelau a.y.y.b. (o dan y thema). Dylai'r Gwaith gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio.

2D or 3D work in any medium *e.g. painting, drawing, printing, computer art, embroidery, modelling etc (under the theme). The work should be mounted on card or framed.*

118. Agored / *Open*

Gwobrau / *Prizes*: £50; £30; £20

119. O dan 19 / *Under 19*

Gwobrau / *Prizes*: £30; £20; £10

120. Oedran Cynradd / Primary School Age

Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

Ffotograffiaeth (o dan y thema). Gellir cyflwyno ffotograff unigol neu grŵp o ffotograffau hyd at bedwar. Dylai'r Gwaith gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio.
Cwpan Coffa Brian Jones i'w ddal am flwyddyn i'r gwaith gorau yn yr adran Ffotograffiaeth.

Photography *(under the theme). A single photograph or a group of up to four photographs will be accepted. The work should be mounted on card or framed.*
The Brian Jones Memorial Cup (to be held for one year) will be awarded to the best exhibit in

121. Agored / *Open*

Gwobrau / *Prizes*: £50; £30; £20

122. O dan 19 / *Under 19*

Gwobrau / *Prizes*: £30; £20; £10

123. Oedran Cynradd / Primary School Age

Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

124. **Agored—llun wedi ei addasu'n ddigidol**. (Rhaid dangos y llun gwreiddiol) / ***Open — digitall manipulated image****. (The original must be shown)*

Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

CELFYDDYD CARTREF / *HOME CREATIVITY*

Beirniad / *Adjudicator*

Joan Phillips ac Eleri Wyn Williams

Gosod Blodau

Cwpan David Peate (i'w ddal am flwyddyn) i'r Gwaith gorau yn yr adran Gosod Blodau.

Flower Arranging

The David Peate Cup (to be held for one year) will be awarded to the best exhibit in the Flower Arranging section.

125. **Agored** (dim mwy na 60cm x 60cm) / ***Open*** *(no bigger than 60cm x 60cm)*

Gwobrau / *Prizes*: £50; £30; £20

126. **O dan 19** (dim mwy na 60cm x 60cm) / ***Under 19*** *(no bigger than 60cm x 60cm)*

Gwobrau / *Prizes*: £30; £20; £10

127. **Oedran Cynradd** (dim mwy na 40cm x 40cm) / ***Primary School Age*** *(no bigger than 40cm x 40cm*

Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

Coginio. Te prynhawn , wedi ei gyflwyno ar hambwrdd. (Yr hambwrdd i fesur dim mwy na 60cm x 40cm). Tlws am yr eitem gorau yn yr adran Coginio.

Cookery. Afternoon tea, presented on a tray*. (The tray to measure no more than 60cm x 40cm). Trophy for the best exhibit in the Cookery section.*

128. **Agored** ***/ Open***

Gwobrau / *Prizes*: £50; £30; £20

129. **O dan 19** / ***Under 19***

Gwobrau / *Prizes*: £30; £20; £10

130. **Oedran Cynradd** / ***Primary School Age***

Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

CREFFT / *CRAFT*

Beirniad / *Adjudicator*

John Price

Eitem i'r buarth neu'r awyr agored. Gwaith mewn unrhyw gyfrwng e.e. coed, metal, gwydr, plastig, ailgylchu gwastraff a.y.y.b.

Item for the farm yard or the outdoors. *Work in any medium e.g. wood, metal, glass, plastic, re-cycled materials etc.*

131. Agored / *Open*
Gwobrau / *Prizes*: £50; £30; £20

132. O dan 19 / *Under 19*
Gwobrau / *Prizes*: £30; £20; £10

133. Oedran Cynradd / Primary School Age
Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

Eitem i'r cartref. Gwaith mewn unrhyw gyfrwng e.e. coed, metal, gwydr, plastig, ailgylchu gwastraff a.y.y.b.

Item for the home. *Work in any medium e.g. wood, metal, glass, plastic, re-cycled materials etc.*

134. Agored / *Open*
Gwobrau / *Prizes*: £50; £30; £20

135. O dan 19 / *Under 19*
Gwobrau / *Prizes*: £30; £20; £10

136. Oedran Cynradd / Primary School Age
Gwobrau / *Prizes*: £20; £12; £8

AMODAU ARBENNIG YR ADRAN GELF A CHREFFT

1. Rhaid i'r holl gynnyrch fod yn waith y cystadleuydd.

2. Rhaid i ffurflenni cystadlu fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Celf a Chrefft erbyn Gorffennaf 1af, 2019.

3. Dylid dod a chynnyrch pob adran ac eithrio adrannau Gosod Blodau a Choginio i Ganolfan y Banw rhwng 5.00-7.00p.m. Ddydd Iau, Gorffennaf 11eg 2019.

4. Dylai'r cynnyrch Gosod Blodau a Choginio gyrraedd Canolfan y Banw rhwng 8.00-9.30a.m. ddydd Gwener, Gorffennaf 12fed 2019.

5. Dylid cyflwyno'r enw priodol a chyfeiriad y cystadleuydd mewn amlen dan sêl ynghlwm wrth bob cynnyrch. Ar wyneb yr amlen rhodder:
   - rhif y gystadleuaeth
   - Enw'r gystadleuaeth
   - Ffugenw'r ymgeisydd

6. Ni ddylid cyflwyno unrhyw waith sydd wedi ennill gwobr o'r blaen yn un o Eisteddfodau Powys.

7. Rhoddir derbynneb am bob gwaith a ddaw i law. Rhaid dangos y dderbynneb pan geslir y gwaith rhwng 6.00 a 7.00 nos Sadwrn, Gorffennaf 13eg 2019.

8. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i'r cynhyrchion.

9. Bydd barn y beirniad yn derfynol.

10. Bydd y gwaith o ddethol y cynnyrch a arddangosir yn gyfrifoldeb y Pwyllgor.

11. Os oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn cystadlu ni chaniateir iddo/iddi stiwardio'r gystadleuaeth tra bo'n cael ei beirniadu.

Special Conditions for the Arts and Crafts Section

1. *All exhibits must be the competitors' own work.*
2. *Entry forms to be sent to the Secretary of the Arts and Crafts committee by July 1st, 2019.*
3. *Entries for all sections excluding the Flower Arranging and Cooking Sections to be brought to Banw Community Centre between 5.00-7.00p.m. On Thursday, July 11th 2019.*
4. *Entries in the Flower Arranging and Cooking Sections to be brought to Banw Community Centre between 8.00-9.30a.m. on Friday, July 12th.*
5. *A sealed envelope containing the competior's name and address should be attached to each item. On the front of the envelope enter:*
   - *competition number*
   - *Name of competition*
   - *Non-de-plume.*
6. *Items which have won prizes at previous Powys Eisteddfodau are not eligible.*
7. *Receipts will be given to all the items received. These must be produced on collection of items from the Exhibition between 6.00pm and 7.00p.m. On Saturday July 13th 2019.*
8. *The Committee will not be responsible for any loss or damage to any entries.*
9. *The Judges' decision is final.*
10. *Depending on the number of entries, work exhibited will be at the discretion of the committee.*
11. *Any member of the Committee has the right to compete but not to steward the competition during the judging.*

Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw

Gorffennaf 12fed a 13eg, 2019

FFURFLEN GYSTADLU– *ENTRY FORM*

ADRAM CELF A CHREFFT– *ART &CRAFT SECTOPM*

ADRAN *SECTION*	RHIF Y GYSTADLEUAETH *COMPETITION NUMBER*	FFUG ENW *NON-DE-PLUME*	GWYBODAETH AM FAINT *SIZE INFORMATION*

ENW / *NAME:* ……

CYFEIRIAD / *ADDRESS:* ……

,,,

Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw

Gorffennaf 12fed a 13eg, 2019

FFURFLEN GYSTADLU

AT YSGRIFENYDDION YR IS-BWYLLGORAU:

CYSTADLEUYDD/PARTI CÔR: ……

FFUGENW (os yn gymwys): ……

ENW'R CYSWLLT: …….

CYFEIRIAD: ……

……...

RHIF FFÔN*:* ……..……..

RHIF Y	ADRAN

Yr wyf/ydym yn ymrwymo i gydymffurfio â'r amodau arbennig a chyffredinol sydd yn y Rhestr Testunau.

Gellir llungopïo copïau ychwanegol o'r ffurflen hon.

I'w dychwelyd i Ysgrifenyddion y Pwyllgorau / Adrannau

Erbyn y dyddiadau priodol:

(Gweler Rhestr Swyddogion)

Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw

July 12th & 13th, 2019

COMPETITION FORM

RETURN TO THE SUB-COMMITTEE SECRETARY:

COMPETITOR/GROUP/CHOIR: ……

NON-DE-PLUME (if applicable): ……

NAME OF CONTACT: …….

ADDRESS: ……

……...

PHONE NO.*:* ……..……..

COMPETITION	SECTION

I/we agree to conform with the special and general Conditions as stated in the Competition Programme.

This form maybe photocopied.

Please return to to relevant Committee/Section Secretary:

By the appropriate date:

(Please see list of Officers)

DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES

Mai 1af	Cyfansoddiadau Adran Llenyddiaeth a Llenyddiaeth y Dysgwyr ynghyd â Ffurflen Gystadlu i gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru
Mai 1af	Cyfansoddiadau ar gyfer cystadleuaeth 87, Cyfansoddi Cerddoriaeth, ynghyd â Ffurflen Gystadlu i gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd.
Mehefin 1af	Cystadleuwyr i anfon copïau o'r geiriau, enw'r gainc, y llyfr y ceir y gainc ynddo, a'r cyweirnod i Ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant.
Mehefin 1af	Cystadleuwyr yn y cystadlaethau llwyfan i anfon eu henwau at Ysgrifenyddion yr Is-Bwyllgorau
June 1st	*Those competing in on stage competitions to send the competition form to the relevant Sub-Committee Secretaries.*
Mehefin 1af	Enwau timau ar gyfer Cystadleuaeth Ymryson y Beirdd i Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru.
Gorffennaf 1af	Ffurflenni cystadlu fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Celf a Chrefft
Gorffennaf 5ed	Ymryson y Beirdd (lleoliad i'w gadarnhau)
Gorffennaf 11eg	Cynnyrch pob adran yn y Celf a Chrefft ac eithrio adrannau Gosod Blodau a Choginio i Ganolfan y Banw rhwng 5.00yh a 7.00yh
Gorffennaf 12fed	Cynnyrch Coginio, Diodydd a Gosod Blodau i'r Eisteddfod rhwng 8.00 a 9.30 o'r gloch y bore.
Gorffennaf 12fed a 13eg	Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw 2019 yng Nghanolfan y Banw, Llangadfan, SY21 0NW
Gorffennaf 13eg	Cystadleuwyr i gasglu eitemau o'r Arddangosfa rhwng 6.00 a 7.00 o'r gloch, Nos Sadwrn Gorffennaf 13eg

CYMRODORIAETH
TALAITH A CHADAIR POWYS

Elusen Gofrestredig 502565

EISTEDDFOD DYFFRYN BANW
GORFFENNAF 12-13, 2019

CYFRANIADAU ARIANNOL A NODDI GWOBRAU

Mae cyflwyno Eisteddfod deilwng o enw Powys gyda'i holl draddodiadau yn gofyn am nawdd ariannol digonol. Mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dyffryn Banw 2019 yn apelio am gyfraniadau, bach neu fawr, oddi wrth garedigion neu noddwyr er sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod arbennig hon. Gellir cyfrannu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol, noddi gwobrau cystadlaethau neilltuol neu noddi un o brif seremonïau neu ddigwyddiadau'r Eisteddfod.

Gellir cyflwyno pob cyfraniad trwy law yr Ysgrifennydd Ariannol. Cydnabyddir enwau rhoddwyr gwobrau ariannol a chyfraniadau ariannol dros **£25** yn Rhaglen Dydd yr Eisteddfod a gellir sicrhau y gwerthfawrogir y cyfan.

Oherwydd fod y Gymrodoriaeth wedi cofrestru fel Elusen mae pob cyfraniad a wneir gan unigolion neu gwmnïau sy'n drethdalwyr yn gymwys i dderbyn nawdd Cynllun Rhodd-Gymorth a manteisio ar ad-daliad o'r Dreth Incwm. Apeliwn felly ar gyfranwyr sy'n drethdalwyr gwblhau y datganiad Rhodd-Gymorth isod. Dylid ysgrifennu'r sieciau i "Gymrodoriaeth Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw 2019".

CYFRANIAD / NAWDD I EISTEDDFOD POWYS
DYFFRYN BANW 2019

Enw llawn: …….

Cyfeiriad: ……..

…… Côd Post: ……..…….

Amgaeaf siec / arian am y swm o £ …….. yn rhodd i 'Gymrodoriaeth Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw 2019'

Os carech i'r arian gael ei ddefnyddio i noddi adran arbennig o'r Eisteddfod a fyddech garediced â nodi eich dymuniad yma os gwelwch yn dda:

……..

……..

……..

Os dymunwch i'r Eisteddfod trwy'r Gymrodoriaeth fanteisio ar nawdd y Cynllun Rhodd Gymorth (Gift Aid) a fyddech garediced â llofnodi'r datganiad isod:

1. Bwriadaf i unrhyw swm a dalwyd gennyf ar ôl Ebrill 2018 ac unrhyw rodd a waned o hyn allan i Gymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys (Elusen Gofrestredig 502565) fod yn gyfraniad Rhodd-Gymorth.
2. Yr wyf yn dreth-dalwr Treth Incwm yn y Deyrnas Unedig a dymunwn i Gymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys hawlio ad-daliad ar fy nghyfraniadau neu roddion trwy'r Cynllun Rhodd-Gymorth.
3. Deallaf y dylwn fod yn talu swm o dreth incwm neu dreth enillion cyfalaf sydd yn gyfartal â'r ad-daliad treth a hawlir ar fy rhodd.

Arwyddwyd: ……..

Dyddiad: ……..

Anfoner pob Rhodd ynghyd â'r ffurflen hon i Drysorydd Eisteddfod Dyffryn Banw 2019:

Emlyn Thomas, Tynllwyn, Foel
Y Trallwm, Powys, SY21 0NR